

REES, WILLIAM (1808 - 1873), argraffydd a chyhoeddwr

Enw: William Rees
Dyddiad geni: 1808
Dyddiad marw: 1873
Rhiant: Sarah Rees (née Rees)
Rhiant: David Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffydd a chyhoeddwr
Maes gweithgaredd: Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Selwyn Jones

Ganwyd 8 Gorffennaf 1808 yn y Ton gerllaw Llanymddyfri - am ei dras, gweler yr ysgrif **Rees** o'r Ton. Dysgodd argraffu yn Henffordd, ond yn 1829 sefydlodd ef a'i ewythr **D. R. Rees** wasg yn Llanymddyfri; cilioedd **D. R. Rees** yn 1835, ond daliodd William Rees ati, a thyfodd y wasg hon yn un o'r enwocaf yng Nghymru, ac ond odid yr orau oll ohonynt yn ei chrefftwaith. Hyhi a gyhoeddodd, 1834, *Gylchgrawn 'Alun'* (John Blackwell).

Diddorol hefyd yw'r cyswllt rhwng y Reesiaid a 'Brutus' (David Owen). Bu ef yn golygu *Lleuad yr Oes*, a argreffid gan Jeffrey Jones. Wedi marw Jones (1830) daeth ei wasg i feddiant y Reesiaid a 'Brutus' gyda hi; a chychwynnwyd *Yr Efanglydd* (1831 - Mai 1835). Newidiodd golygiadau gwleidyddol ac eglwysaidd 'Brutus'; bu farw'r *Efanglydd*, ac yn ei le cychwynnodd y Reesiaid y cylchgrawn Anglicanaidd adnabyddus iawn, *Yr Haul*, a 'Brutus' yn olygydd iddo.

Ond ar ôl i'w ewythr ymddeol, a chyda help David Jones Roderic, y bwridd William Rees i'r dwn fel argraffydd o'r radd flaenaf. Yn 1848-9, argraffodd y tair cyfrwl wych o *Fabinogion* yr *arglywyddes Charlotte Guest*. O'r wasg hon hefyd y daeth cynhyrchion y 'Welsh MSS. Society,' 1836; ymmsg y rhain gellir enwi *Heraldic Visitations Lewis Dwnn*, 1846; *Llyfr Llandaf*, 1850; *Iolo MSS.*, 1852; *Lives of the Cambro-British Saints*, 1853; *Dosparth Edeyrn Davod Aur*, 1856; *Meddygon Myddfai*, 1856; *Barddas*, 1862. Ymhliith liaws llyfrau eraill gwsg Llanymddyfri, ni ellir yma ond enwi *Eminent Welshmen*, 1852; *Literary Remains 'Carnhuanawc'* (yn rhannol â Longmans, Llundain), 1854-5; a llyfr 'Ilu Gwynedd,' 1848, yn erbyn adroddiad dirprwywyr addysg 1846-7.

Gyda hyn oll, cymorth Rees ran flaenllaw ym mywyd cyhoeddus ei dref; a bu'n gasglydd cronfa adeiladu ysgol **Thomas Phillips** (1760-1851) yn Llanymddyfri. Bu farw 13 Gorffennaf 1873, a chiaddwyd yn Llandegla.

Awdur

Selwyn Jones, (1906 - 1981)

Ffynonellau

Llawysgrifau Tonn yn Llyfrgell Dinas Caerdydd yn Llyfrgell Dinas Caerdydd

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

Darllen Pellach

Coflein: **Tonn House**

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20738190](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaid Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

LLEG
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodder gan
Iwerddon Cymru
Sponsored by
Welsh Government